# JONES, JOSEPH DAVID (1827 - 1870), athro a cherddor

**Enw:** Joseph David Jones
**Dyddiad geni:** 1827
**Dyddiad marw:** 1870
**Priod:** Catherine Jones (née Daniel)
**Plentyn:** D. Lincoln Jones
**Plentyn:** Henry Haydn Jones
**Plentyn:** Owen D. Jones
**Plentyn:** John Daniel Jones
**Rhiant:** Catherine Jones
**Rhiant:** Joseph Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** athro a cherddor
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Cerddoriaeth
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd yn 1827 yn Bryncrugog, plwyf Llanfaircaereinion, Sir Drefaldwyn, mab Joseph a Catherine Jones. Gwehydd oedd y tad, a phregethai gyda'r Wesleaid. Yn 14 oed mynychai Joseph gyfarfod canu a gynhelid yn Nolanog, rhyw ddwy filltir o'i gartref. Dangosodd y tad wrthwynebiad mawr iddo fynd i'r cyfarfodydd canu, ac ni allai oddef iddo golli ei waith gyda cherddoriaeth. Symudodd y teulu i Pantgwyn ger Llanfaircaereinion a chafodd well cyfleusterau i ddysgu cerddoriaeth yno. Anrhegwyd ef â sielo a dysgodd ei chwarae yn lled dda. Dechreuodd gyfansoddi tonau, a chyn bod yn 20 oed dug allan *Y Perganiedydd*, casgliad o donau; trodd yr anturiaeth allan yn llwyddiant ariannol. Wedi colli ei fam gorfu iddo gefnu ar ei gartref, ac aeth i Dywyn, Meirionnydd, i ofalu am un o'i gyd-ysgolheigion a oedd yn wael ei iechyd. Ar gais nifer o gyfeillion agorodd ysgol yno, a bu yno yn llafurio gyda cherddoriaeth am dair blynedd. Cynhaliai ysgolion canu bob wythnos yn Nhywyn, Aberdyfi, Llanegryn, a Bryncrug. Aeth am chwe mis o addysg i Goleg Hyfforddiadol Borough Road, Llundain, a dychwelodd yn ôl i Dywyn. Yn Hydref 1851 penodwyd ef yn athro yr Ysgol Frutanaidd. Yn Ionawr 1860 priododd Catherine Daniel, Caethle, Tywyn. Yn 1865 rhoddodd ei swydd i fyny yn yr Ysgol Frutanaidd, a sefydlodd ysgol ramadeg breifat yn Clwyd Bank, Rhuthyn.

Gwnaeth gyfraniad gwerthfawr i gerddoriaeth Cymru. Enillodd yn eisteddfod Bethesda, 1853, am gyfansoddi anthem, 'Ymddyrcha, O Dduw,' a chafodd wobrwyon mewn amryw eisteddfodau eraill. Cyfansoddodd lawer o ganeuon, anthemau, a thonau, a chyhoeddodd *Y Cerub*, casgliad o donau ac anthemau; *Cydymaith y Cerddor*; *Y Delyn Gymreig*; *Caniadau Bethlehem*; *Alawon y Bryniau* (gyda'r alawon hyn y denwyd Cymru oddi wrth y baledi, ac yr arloeswyd y ffordd i ganeuon Dr. Parry, R. S. Hughes, a William Davies); *Cyfrol o Anthemau*; *Cantawd Llys Arthur*. Golygodd, gyda 'Tanymarian,' *Llyfr Tonau ac Emynau*, 1868; arno ef y disgynodd y gwaith mwyaf - treuliasai bedair blynedd yn casglu, dethol, a chynganeddu'r tonau. Yn

1868 hefyd cyhoeddodd ef a 'Tanymarian' *Casgliad o Gorganau*. Trefnodd a golygodd gasgliad arall o donau ac anthemau, at wasanaeth y Wesleaid, a chyhoeddwyd y llyfr yn 1872. Bu ei ganeuon yn boblogaidd, ac erys 'Capel y Ddol' a thonau eraill o'i waith yn boblogaidd. Bu farw 17 Medi 1870 a chladdwyd ef ym mynwent y Bedyddwyr, Rhuthyn.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau

*Y Gwyddoniadur Cymreig* (1889–96), x, 624

*Y Cerddor*, 1870, 78, 85; Mawrth a Mai 1893, Ebrill 1910

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

*NLW MSS* 7340, 8294-6, 9497

## Darllen Pellach

J. D. Jones, *Three Score Years and Ten: the Autobiography of J.D. Jones* (London 1940)

Lyn Davies, 'Jones, Joseph David (1827-70)', *Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru* (Talybont 2018), t.285

## Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: J. D. Jones Manuscripts

Archifau LlGC: Papers relating to Joseph David Jones

VIAF: 48724037

Wikidata: Q6282491

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu